Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# CITB-Sgiliau Adeiladu
# Uned 4 a 5 Canolfan Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr
# Stryd Dewi
# Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF31 3SH

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr ac ar ei ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Elusen gofrestredig sy'n cael ei hadnabod fel CITB-Sgiliau Adeiladu yw Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB). Hwn yw'r Cyngor Sgiliau Sector (CSS) ar gyfer adeiladu, sy'n cynnig ffordd y gall cyflogwyr ddylanwadu ar y math a'r cyflenwad o gymorth addysg, hyfforddiant a busnes ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau ar gyfer y sector gyda chyflogwyr a phartneriaid i fynd i'r afael â nodau allweddol, sef:

- lleihau'r bylchau a'r prinder medrau;
- gwella cynhyrchiant, perfformiad mewn busnes a gwasanaethau cyhoeddus;
- cynyddu'r cyfleoedd i hybu medrau a chynhyrchiant ar gyfer pawb yng ngweithlu'r sector, gan gynnwys gweithredu ar gyfle cyfartal; a
- gwella dysgu trwy brentisiaethau, addysg uwch a safonau galwedigaethol cenedlaethol.

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn gweithredu fel asiantaeth reoli ar gyfer cyflwyno rhaglenni dysgu a ariennir gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AAS). Mae'r darparwr yn rheoli cyflwyno fframweithiau cymhwyster mewn adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig.

Mewn rhaglenni Prentisiaeth Fodern (PF) a Phrentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) fel ei gilydd, mae nifer y dysgwyr ar y rhaglen yn cynrychioli tua dau o bob tri o gyfanswm nifer y dysgwyr adeiladu yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod perfformiad y darparwr yn cael effaith anghymesur ar y cyfartaleddau cenedlaethol. O ganlyniad, mae perfformiad y darparwr yn tueddu i fod yn agos at gyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r darparwr yn perfformio'n ffafriol o'i gymharu â'r sector yn gyffredinol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn dda. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr y Brentisiaeth Fodern (PF) a'r Brentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt yn dda ac maent yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer darparwyr hyfforddiant adeiladu yng Nghymru. Mae data nas gwiriwyd diweddaraf y darparwr yn dangos cyfradd gyflawni uchel yn erbyn meincnodau cenedlaethol. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd ymarferol da a gwybodaeth dda am theori yn ystod eu hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Mae gan y darparwr drefniadau da ar gyfer monitro a hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr. Mae ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch dysgwyr yn y gweithle yn gryf iawn.

Mae Cyfarwyddwr Cymru ac uwch reolwyr CITB-Sgiliau Adeiladu yn darparu cyfeiriad strategol da ar gyfer staff. Mae strwythurau rheoli a chyfathrebu da ar draws y darparwr yn sicrhau bod staff yn cyfrannu i fusnes y darparwr yn effeithiol.

Mae gan y darparwr drefniadau partneriaeth cryf ac effeithiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid ac mae'n cydweithio'n dda mewn nifer o fentrau. Mae rheolwyr yn arwain mewn datblygu arferion cydweithio, lle bo'n briodol.

### Rhagolygon gwella

Mae gallu'r darparwr i wella yn dda oherwydd bod arweinwyr a rheolwyr:

- yn meddu ar weledigaeth glir o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno hyfforddiant;
- wedi rhoi'r argymhellion o arolygiad diwethaf Estyn ar waith yn effeithiol;
- wedi datblygu gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol;
- yn rhoi ffocws cryf ar agweddau allweddol ar ddarpariaeth, yn cynnwys gwella ansawdd a chyflwyno hyfforddi ac asesu;
- wedi datblygu strwythur rheoli cynhwysol ac effeithiol;
- wedi gwella deilliannau dysgwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn am y tair blynedd diwethaf;
- yn darparu lefelau da o gymorth i ddysgwyr; ac
- wedi datblygu cyfathrebu effeithiol ar draws y darparwr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i CITB-Sgiliau Adeiladu:

A1 wella ymhellach y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt;

A2 gwneud yn siŵr bod pob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) canfyddadwy yn cael cymorth priodol ar ddechrau eu hyfforddiant;

A3 gwneud yn siŵr bod pob adran o'r adroddiad hunanarfarnu (AHA) yn nodi unrhyw ddiffygion a'r camau adferol sydd eu hangen yn glir; a

A4 pharhau i nodi a rhannu arfer orau mewn hyfforddi ac asesu ymhlith staff.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn i'r darparwr fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad ac integreiddio eu camau arfaethedig yn eu cynllun gwella i AdAS, fel rhan o'r cylch cynllunio gwella rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt yn dda. Mae nifer y dysgwyr sy'n cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu medrau allweddol a hanfodol arnynt yn dda.

Yn y cyfnod rhwng 2007 a 2010, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr PF yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt wedi gwella o 61% i 74%. Yn yr un cyfnod, mae cyfraddau PFS wedi gwella o 71% i 76%. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2010-2011 yn dangos bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr wedi parhau i wella ar gyfer Prentisiaid Modern a Phrentisiaid Modern Sylfaen.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at gwblhau eu fframweithiau cymhwyster llawn. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o'u fframweithiau hyfforddi. Maent yn gwybod beth maent wedi'i gwblhau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd pellach.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr presennol yn dangos lefelau da o gymhwysedd ymarferol. Mae dysgwyr gwaith saer ac asiedydd yn dangos medrau ymarferol da wrth greu ystod eang o osodion pren, er enghraifft, ffenestri cadeirlan, drysau a derbynfeydd mewn pren caled a phren meddal. Mae dysgwyr gwaith brics yn dangos lefelau da o gymhwysedd ymarferol wrth adeiladu waliau ceudod ar ddatblygiadau preswyl newydd.

At ei gilydd, mae safon portffolios y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dda. Maent yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys tystiolaeth gan dystion a ffotograffau. Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynnwys tystiolaeth o safonau gwell dros gyfnod eu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw rhai portffolios yn cynnwys adborth ysgrifenedig digon manwl ac nid yw dysgwyr bob amser yn cywiro eu camgymeriadau sillafu neu atalnodi.

Mae dysgwyr yn dangos medrau cyfathrebu llafar da. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella eu hunanhyder a'u hunan-barch o ganlyniad i'w hyfforddiant. Mae dysgwyr yn elwa ar gynlluniau dysgu unigol (CDUau) manwl, sy'n cofnodi eu hanghenion cymorth unigol yn glir. Caiff dysgwyr gymorth ffurfiol ac anffurfiol da gan swyddogion prentisiaeth a staff y coleg i ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, mae dysgwyr wedi gwella eu medrau llythrennedd o lefel mynediad i lefel 2 yn ystod eu hyfforddiant.

Yn y mwyafrif o weithleoedd, mae dysgwyr yn datblygu medrau a gwybodaeth lefel uwch. Maent yn dangos lefelau uchel o frwdfrydedd dros eu gwaith ac maent wedi'u cymell yn dda i gwblhau eu hyfforddiant. Mae llawer ohonynt yn frwdfrydig ynglŷn â gwneud cynnydd i lefel nesaf yr hyfforddiant. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd i lefel yr hyfforddiant arnynt yn dda.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau hanfodol. Yn gyffredinol, mae'r cyd-destun yn berthnasol i'r diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw dysgwyr bob amser yn ennill cymwysterau mewn medrau hanfodol ar lefelau uwchlaw'r lefelau sydd eu hangen ar gyfer eu cymhwyster fframwaith llawn, hyd yn oed pan fyddant yn gweithio ar y lefelau uwch.

Mae dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd da i gynnal a datblygu eu medrau Cymraeg. Y cydlynydd yw'r unigolyn cyswllt cyntaf yn y swyddfa ar gyfer unrhyw ddysgwyr Cymraeg mamiaith. Yng ngogledd a gorllewin Cymru, mae dysgwyr yn cwblhau asesiad CGC trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dysgwyr yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn dda wrth gyfathrebu'n ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'i gilydd a'u tiwtoriaid pan fo'n briodol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn manteisio ar adnoddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n eu hannog i ddatblygu agweddau diogel ac iach at waith a byw. Mae dysgwyr yn dangos y rhain yn dda mewn gweithgareddau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith fel ei gilydd. Mae dysgwyr yn dangos lefel uchel iawn o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd a diogelwch. Mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau gweithio. Maent yn gwybod sut i gael cymorth ar faterion iechyd a diogelwch gan eu cyflogwr, y coleg a'u swydd prentisiaeth. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o beth i'w wneud os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu haflonyddu yn eu gweithleoedd neu wrth fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae adolygiadau pob dysgwr yn cynnwys ystod eang o gwestiynau ynghylch iechyd a diogelwch a lles sy'n cysylltu'n dda â'u hamgylchedd gweithio.

Mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad a brwdfrydedd at eu dysgu. Maent yn siarad gyda brwdfrydedd am y cynnydd y maent yn ei wneud a'r medrau newydd y maent wedi'u datblygu. Mae dysgwyr yn hyderus y bydd y medrau newydd hyn yn helpu eu cefnogi yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol ac yn eu galluogi i sicrhau swydd dda a chynaliadwy.

Mae dysgwyr yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau ychwanegol pan fyddant i ffwrdd o'u gweithleoedd, er enghraifft, byw yn iach trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon. Mae dysgwyr wedi cymryd rhan yn dda ac wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadlaethau crefftau adeiladu. Er enghraifft, enillodd dysgwr wobr Lifrai Cymru am ei waith trywel; aeth i Dde Affrica am wythnos hefyd i helpu adeiladu meithrinfa yn y gymuned leol. Fe wnaeth dysgwr arall gymryd rhan mewn prentisiaethau marchnata adeiladu trwy gynhyrchu fideo fel rhan o dîm. Cyfieithodd ei sgript i'r Gymraeg a chyflwynodd y fideo yn ddwyieithog. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ddatblygu ei hyder, ei fedrau llafar a medrau cyfathrebu eraill.

Mae dysgwyr yn elwa ar lefelau da iawn o gymorth gan eu goruchwylwyr a'u hyfforddwyr yn y gweithle. Mae'r crefftwyr medrus hyn yn fodelau rôl, yn fentoriaid ac yn anogwyr effeithiol. Caiff dysgwyr hyfforddiant ychwanegol, fel y 'sgyrsiau blwch offer', sef sesiynau hyfforddi ar ddefnyddio offer a chyfarpar. Maent bob amser yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a diogelwch, er enghraifft mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o ddiogelwch, sy'n gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau diogelwch yn y gweithle. Mae dysgwyr yn elwa ar hyfforddiant iechyd a diogelwch da pan fyddant yn y coleg.

At ei gilydd, mae presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn dda iawn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r diwydiant adeiladu yn dda iawn.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod eang o raglenni i gefnogi hyfforddiant a datblygiad dysgwyr yn y diwydiant adeiladu. Datblygwyd y rhaglenni hyn mewn partneriaeth â cholegau a darparwyr hyfforddiant lleol. Caiff dysgwyr lawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau a chymwysterau ychwanegol mewn masnachau arbenigol a thraddodiadol, fel gosod sgaffaldiau, cynnal offer, teilio lloriau a waliau cerrig sych. Mae nifer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen Llwybrau i Brentisiaeth. Datblygwyd y rhaglen hon i gefnogi'r diwydiant adeiladu yn ystod y dirwasgiad diweddar, ac mae'n galluogi dysgwyr i gysylltu â chyflogwyr am brofiad gwaith ac ennill y medrau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r darparwr yn cynnal sgan medrau effeithiol fel rhan o gyfweliad y dysgwr i bennu pa mor addas ydyw ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladu. Caiff dysgwyr asesiad diagnostig ar gyfer medrau sylfaenol fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu yn y coleg.

I ymateb i strategaeth medrau sylfaenol Llywodraeth Cymru (LlC), mae'r darparwr yn datblygu prosiect Medrau Sylfaenol ar gyfer y Gweithle. Nod y prosiect yw cyflwyno a datblygu deunyddiau medrau hanfodol perthnasol yn alwedigaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd o fewn y fframwaith cymhwyster newydd. Mae'r darparwr yn cyflogi cydlynydd Iaith Gymraeg i reoli a gweithredu eu Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod colegau yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer asesu, hyfforddi a datblygu medrau hanfodol dysgwyr. Mae dysgwyr yn elwa ar raglen ddydd drefnus neu sesiynau hyfforddi rhyddhau am gyfnod mewn colegau lleol, sy'n cynnwys hyfforddiant medrau hanfodol. Mae ansawdd yr hyfforddiant yn y gwaith gyda chyflogwyr yn dda ac yn datblygu medrau ymarferol dysgwyr yn dda.

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) yn dda iawn. Mae'r darparwr wedi ymgorffori agweddau ar ADCDFE ym mhob rhaglen hyfforddi. Mae gan bron bob dysgwr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o gynnyrch sy'n ynni-effeithlon ac yn gynaliadwy sy'n berthnasol i'r diwydiant.

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu wedi datblygu nifer o brosiectau mewn partneriaeth â diwydiant i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ADCDFE, fel medrau inswleiddio waliau allanol a medrau treftadaeth. Mae'r darparwr wedi datblygu gwefan i godi ymwybyddiaeth am ADCDFE, gyda ffocws penodol ar allyriadau carbon isel. Mae'r wefan yn cynnig cyngor ac arweiniad da i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae'r darparwr yn datblygu ystod o fodiwlau hyfforddiant achrededig a chyrsiau byr ar allyriadau carbon isel.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi yn dda. Mae'r holl hyfforddiant ymarferol yn digwydd yn y gweithdai coleg a chyda chyflogwyr.

Mae bron pob cyflogwr yn darparu addysgu a hyfforddiant da iawn yn y gweithle. Mae cyflogwyr yn darparu cyfleoedd hyfforddi da iawn, yn aml ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan y fframwaith cymhwyster. Mae gan swyddogion prentisiaeth a chyflogwyr wybodaeth gyfoes am ddiwydiant. Maent yn defnyddio eu harbenigedd yn dda i hysbysu a chynghori dysgwyr ynglŷn â thechnolegau adeiladu newydd.

At ei gilydd, caiff dysgwyr eu hasesu'n dda. Mae'r asesu yn rheolaidd ac yn drylwyr ac yn bodloni gofynion y corff dyfarnu. Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn rhoi adborth llafar cynhwysfawr ac adeiladol i ddysgwyr ac maent yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd. Mae adolygiadau cynnydd dysgwyr yn y gwaith yn dda. Mae'r adolygiadau yn rhoi sylw arbennig o dda i iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth a lles dysgwyr. Maent wedi'u strwythuro'n dda ac yn fanwl. Yn ystod adolygiadau, mae swyddogion prentisiaeth yn gosod targedau heriol i ddysgwyr ar gyfer casglu tystiolaeth portffolio Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Mae swyddogion prentisiaeth yn dangos gallu da iawn i gefnogi a herio gwybodaeth dechnegol dysgwyr yn ystod arolygiadau iechyd a diogelwch a sesiynau adolygu.

Mae gan bob un o staff CITB-Sgiliau Adeiladu y cyfwelwyd â nhw gefndiroedd diwydiannol da ac maent yn defnyddio'r wybodaeth a'r profiad hwn yn dda yn eu sesiynau addysgu a hyfforddi.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid i roi gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol i ddysgwyr. Mae'n gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gysylltiedig â rhaglenni hyfforddi dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau i ddysgwyr a sut y gallant wneud cyfraniad cadarnhaol i les a datblygiad cyffredinol dysgwyr.

Mae gan y darparwr drefniadau da ar gyfer monitro a hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr. Mae ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch dysgwyr yn y gweithle yn gryf iawn. Mae dealltwriaeth cyflogwyr o iechyd a diogelwch yn dda. Ar y cyd â swyddogion prentisiaeth, maent yn cyflwyno ac yn pwysleisio egwyddorion iechyd a diogelwch yn dda fel rhan o brofiadau dysgu prentisiaid. Mae gan y darparwr ganllawiau clir ar gyfer delio â bwlio ac aflonyddwch, yn cynnwys darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth staff a dysgwyr am fwlio seiber. Mae swyddogion prentisiaeth a dysgwyr yn deall y canllawiau a'r gweithdrefnau hyn yn dda.

Mae swyddogion prentisiaeth yn monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn rheolaidd ac yn delio'n brydlon â materion sy'n codi.

Mae'r darparwr yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad da i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu hyfforddiant ac ym mhob cam o'u rhaglenni.  Mae hyn yn cynnwys gweithdai, hyfforddiant a phrofion ymarfer i helpu dysgwyr i lenwi eu ffurflenni cais i gael hyfforddiant, cyfnodau prawf i'w helpu i benderfynu pa mor addas ydynt ar gyfer medrau adeiladu penodol, cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth, a'r 'camau nesaf' pan fyddant yn cwblhau eu hyfforddiant.  Mae swyddogion prentisiaeth ac ymgynghorwyr gyrfaoedd adeiladu yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc, sefydliadau eraill a Gyrfa Cymru i hyrwyddo adeiladu fel llwybr gyrfa ac maent yn helpu darpar brentisiaid i werthfawrogi ystod y gwaith a'r rhagolygon swydd yn y maes galwedigaethol.

Pan fydd dysgwyr yn dechrau eu rhaglenni, cânt gyfnod ymsefydlu cynhwysfawr sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu fframwaith prentisiaeth.  Mae hyn yn eu helpu i ddeall eu cyfrifoldebau a gofynion eu hyfforddiant.

Mae'r darparwr yn rhoi cymorth personol a chymorth dysgu da i ddysgwyr.  Mae swyddogion prentisiaeth yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn deall eu hanghenion unigol.  Maent yn defnyddio adolygiadau dysgwyr yn effeithiol i'w helpu i nodi dysgwyr a allai fod mewn perygl o fod ar ei hôl hi gyda'u gwaith, neu fod angen mwy o gymorth arnynt i'w helpu i oresgyn anawsterau personol neu ddysgu a allai eu rhwystro rhag cynnydd a chyflawniad llwyddiannus.

Mae'r darparwr yn gwneud defnydd da o wasanaethau a phartneriaid allanol i'w helpu i fodloni anghenion cymorth ychwanegol dysgwyr.  Mae wedi ffurfio partneriaeth effeithiol iawn gyda sefydliad yn ddiweddar yn un o'i ranbarthau cyflwyno i roi cymorth targedig ychwanegol i ddysgwyr sydd ei angen, yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan sefydliadau sy'n cyflwyno hyfforddiant a chymorth i ffwrdd o'r gwaith.

Mae bron pob un o'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol ar ddechrau eu hyfforddiant.  Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, ni chaiff anghenion cymorth ychwanegol dysgwyr eu bodloni'n ddigon cynnar yn eu rhaglenni.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu:  Rhagorol**

Mae gan y darparwr ethos cynhwysiant cryf iawn ac mae wedi ymrwymo i degwch a chydraddoldeb i bob un o'i ddysgwyr a'i staff.  Mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr, sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth, ac mae'n monitro effaith y rhain yn dda.

Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda iawn ac mae'n cymryd rhan mewn sawl prosiect sydd â'r nod o herio safbwyntiau ystrydebol a rhagdybiaethau am y diwydiant a chael gwared ar rwystrau rhag cael gyrfa ym maes adeiladu.  Mae'r darparwr wedi ymrwymo i annog grwpiau nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt i ddechrau yn y diwydiant ac mae ganddo dargedau recriwtio clir a phenodol ar gyfer y grwpiau hyn.

Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth dda iawn o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n annog diwylliant o barch. Mae swyddogion prentisiaeth yn atgyfnerthu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda yn ystod ymweliadau adolygu gyda dysgwyr. Mae pob un o'r staff wedi elwa ar hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u teilwra yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae safon amgylcheddau gweithio a dysgu'r dysgwyr yn dda ac yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae dysgwyr yn y gwaith yn elwa ar weithleoedd o ansawdd da sy'n cynnig amgylchedd da iddynt ymarfer a datblygu eu medrau. Mae'r gweithleoedd hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd da iawn i ddysgwyr gasglu tystiolaeth portffolio ar gyfer eu Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Mae adeiladau o ansawdd da ar gael i ddysgwyr ar gyfer hyfforddiant ymarferol a theori pan fyddant yn mynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn y coleg. Fodd bynnag, ar adegau, dywed y dysgwyr fod yr adeiladau yn orlawn ac nad yw'r offer llaw yn cael ei gynnal yn dda. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfle i ddefnyddio adnoddau o ansawdd da pan fyddant yn mynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyfle i wneud defnydd da o offer gweithdy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae Cyfarwyddwr Cymru CITB-Sgiliau Adeiladu wedi sefydlu gweledigaeth ac ethos clir ar gyfer y darparwr. Mae'r rhain yn rhoi ffocws cryf ar welliant parhaus yn ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan y darparwr strwythur rheoli ac adrodd clir. Mae rheolwyr ar bob lefel yn darparu arweinyddiaeth dda ac yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer y darparwr. Mae rheolwyr yn cyfleu strategaethau a thargedau i staff yn dda trwy ystod gynhwysfawr o ddogfennau a chyfarfodydd. Mae uwch reolwyr yn cysylltu gosod targedau ag amcanion strategol yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn cynnig her dda o ran perfformiad yng Nghymru. Caiff tîm Gweithredol o gyfarwyddwyr ddata perfformiad manwl o'r rhanbarth ac mae'n craffu'n dda ar berfformiad yng Nghymru.

Mae cynlluniau strategol a gweithredol yn fanwl ac yn cael eu deall yn dda gan staff. Caiff blaenoriaethau a gwerthoedd craidd y darparwr eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu gyda phob un o'r staff a'r partneriaid trwy gynlluniau strategol a gweithredol clir.

At ei gilydd, ceir cyfathrebu da ar draws y darparwr. Mae cyfarfodydd misol y tîm rheoli yn canolbwyntio ar faterion gweithredol allweddol ac mae cyfarfodydd chwarterol gyda Chyfarwyddwr Cymru yn canolbwyntio ar faterion strategol allweddol. Mae rheolwyr a staff yn rhannu cyfrifoldeb cyffredin ar gyfer perfformiad a lles dysgwyr.

At ei gilydd, caiff perfformiad y staff ei reoli'n dda. Mae rheolwyr yn cysylltu perfformiad unigolion â thargedau heriol yn dda. Mae'r targedau hyn wedi'u cysylltu'n glir â meini prawf sy'n gweddu'n dda i'w swyddi. Mae rheolwyr yn rhoi

lefelau da o gymorth personol i swyddogion prentisiaeth i'w helpu i wella eu perfformiad.

Mae pob un o'r staff ar draws y darparwr yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd i rannu arfer dda a gwella arferion a gweithdrefnau gweithio. Fodd bynnag, yn achlysurol iawn, collir cyfleoedd i nodi a rhannu arfer orau.

Mae gan y darparwr weithdrefnau datblygedig ar gyfer rheoli ei is-gontractwyr coleg. Mae gan y darparwr gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) ar gyfer ei is-gontractwyr. Mae rheolwyr yn adolygu ac yn diweddaru'r cytundebau hyn bob blwyddyn. Mae'r dogfennau hyn yn diffinio rolau a chyfrifoldebau CITB-Sgiliau Adeiladu a staff is-gontractwr coleg yn glir.

Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o wybodaeth a data rheoli i adolygu, monitro a gwella perfformiad is-gontractwyr. Mae uwch reolwyr yn monitro data deilliannau dysgwyr yn dda ac yn defnyddio cymaryddion a data meincnodau cenedlaethol yn effeithiol i fonitro a gwella ansawdd y dysgu yn barhaus.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'n cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu hyfforddiant adeiladu ledled Cymru trwy nodi a bodloni anghenion y diwydiant adeiladu a datblygu strategaethau i fodloni gofynion medrau yn y dyfodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd y darparwr yn effeithiol o ran gwella perfformiad y sefydliad. Mae'r tîm safonau yn annog staff ar bob lefel i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r darparwr yn defnyddio tystiolaeth o holiaduron dysgwyr, fforymau dysgwyr, fforymau cyflogwyr a thimau hyfforddi yn dda i lywio'r adroddiad hunanasesu (AHA) ac ysgogi gwelliant. Mae'r AHA yn gynhwysfawr, yn fanwl ac yn hunanfeirniadol. Fodd bynnag, mewn rhai adrannau, nid yw'n nodi diffygion a chamau adferol yn ddigon clir ac yn ddigon da.

Mae'r AHA yn llywio'r cynllun datblygu ansawdd (CDA) yn dda. Mae'r CDA yn cynnwys targedau sy'n benodol, yn fesuradwy ac yn cynnwys adnoddau, ac mae'n nodi cyfrifoldebau staff o ran gweithredu a monitro cynnydd yn glir.

Mae staff ar bob lefel yn cydweithio'n dda, gyda ffocws clir ar wella ansawdd. Mae staff y darparwr yn gweithio'n dda iawn gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid allweddol i wneud yn siwr bod ansawdd yr hyfforddiant adeiladu yn gwella'n barhaus.

Mae'r darparwr yn defnyddio prosesau gwella ansawdd cadarn yn effeithiol i fonitro perfformiad y sefydliad a nodi meysydd i'w gwella. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys adolygu ac arfarnu'r holl brosesau allweddol o fewn y sefydliad. Mae'r tîm safonau yn cefnogi rheolaeth weithredol y sefydliad yn dda.

Mae staff y darparwr yn gwneud defnydd da o systemau gwybodaeth reoli (SGR) i olrhain cynnydd a chyflawniad dysgwyr ac maent yn defnyddio system codau lliw yn dda i fonitro perfformiad y dysgwyr. Mae uwch reolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata ar ddeilliannau dysgwyr ac yn cymharu'r rhain yn dda yn erbyn data ar gymaryddion cenedlaethol.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o arolygiad diwethaf Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y darparwr drefniadau partneriaeth da iawn ac effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'n cydweithio'n dda mewn nifer o fentrau ac yn arwain mewn datblygu arferion cydweithio lle bo'n briodol.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddatblygu strategaethau ac arferion gweithio effeithiol ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu, sy'n darparu profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc ar safleoedd adeiladu go iawn. Mae rhaglen adeiladu pontydd y Sefydliad Peirianwyr Sifil yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu medrau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phrosiectau peirianneg sifil mawr.

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn gwneud defnydd da o brosiectau ar y cyd i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymarferol a chyfrannu yn eu cymunedau lleol. Er enghraifft, mae grwpiau o ddysgwyr pensaernïaeth wedi gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol ac ysgolion, yn adeiladu ac yn gosod meinciau a byrddau picnic.

Mae grwpiau a fforymau hyfforddi a ddatblygwyd gan y darparwr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn cynllunio, yn cyflwyno ac yn monitro rhaglenni hyfforddi cydlynus yn llwyddiannus i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae grwpiau hyfforddi yn cynnwys cynrychiolwyr o'r darparwr, colegau, cyflogwyr, ysgolion, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru.

Mae'r darparwr yn rhagweithiol o ran cefnogi datblygiadau mewn nifer o rwydweithiau dysgu 14-19. Mae'n gweithio'n dda gyda sefydliadau a rhanddeiliaid eraill fel ysgolion, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC), Cymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain (BACH), Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.

Mewn partneriaeth â Chymdeithas Hyfforddi Grwpiau Adeiladu Sir Gaerfyrddin Cyf a Choleg Sir Gâr, mae'r darparwr wedi datblygu Cynllun Prentisiaeth ar y Cyd arloesol, a enillodd wobr hyfforddiant genedlaethol am weithio mewn partneriaeth. Dyma raglen hyfforddiant deilwredig mewn gosod brics, gwaith saer, plastro, plymwaith a gwaith trydanol sy'n 'rhannu' prentisiaid ymhlith grwpiau o gyflogwyr, gyda'r bwriad o gynhyrchu crefftwyr hynod fedrus. Mae'r cynllun yn darparu cynllun prentisiaeth sy'n bodloni anghenion cwmnïau lleol ac yn mynd i'r afael â phryderon, a fynegir gan fentrau bach a chanolig yng ngorllewin Cymru, ynglŷn â'r ffaith nad oes ystod eang o brofiadau hyfforddi ar gyfer dysgwyr.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r darparwr yn rhoi ffocws cryf ar hyfforddi a datblygu ei staff.  Mae ganddo strategaeth datblygu staff wedi'i chofnodi'n dda, sy'n cael ei hategu gan siarter fanwl ar ddysgu a datblygu.  Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n glir yr hyn y mae'r darparwr yn ei ddisgwyl o staff a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan CITB-Sgiliau Adeiladu.  Caiff pob un o'r staff gyfleoedd da i gael hyfforddiant priodol i helpu gwella eu perfformiad.

Mae gan bob un o'r staff brofiad priodol ac maent yn dangos gwybodaeth dda am y diwydiant adeiladu a gofynion fframweithiau cymhwyster y dysgwyr.

Mae'r darparwr yn adolygu'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr ar hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn rheolaidd.  Mae staff CITB-Sgiliau Adeiladu yn cofnodi unrhyw ddiffygion ac yn tynnu sylw'r goruchwyliwr neu staff y coleg atynt.  Mae cyfarfodydd dilynol yn adolygu'r camau y mae'r goruchwyliwr ar y safle neu staff y coleg wedi eu cymryd.

Mae'r darparwr yn rheoli ei gyllid yn dda.  Mae'r uwch dîm rheoli yng Nghymru yn rheoli ei adnoddau ariannol yn effeithiol.  Mae'r cynllunio ariannol yn canolbwyntio'n glir ar gyflawniad a safonau dysgwyr.

Mae CITB-Sgiliau Adeiladu yn darparu safonau da ar gyfer ei ddysgwyr ac yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Oherwydd anawsterau technegol, nifer fach o ymatebion a gafwyd i'r holiadur i ddysgwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y dysgwyr hynny a ymatebodd yn fodlon iawn â'r ddarpariaeth, er bod nifer fach yn teimlo nad oedd y deunyddiau dysgu o'r ansawdd gorau bob amser.

# Atodiad 2

## T0000029 : Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

### Darpariaeth DYYG - Cyfraddau Llwyddo yn ôl Sector/Maes Pwnc a'r Math o Raglen

| | 2007/08 | | | | | | 2008/09 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | |
| | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo |
| **Yn ôl Sector / Maes Pwnc** | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | . | . | . | 12,145 | 17,650 | **69%** | . | . | . | 14,080 | 17,900 | **79%** |
| Addysg a Hyfforddiant | . | . | . | 2,125 | 2,530 | **84%** | . | . | . | 1,930 | 2,190 | **88%** |
| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | . | . | . | 10,070 | 13,680 | **74%** | . | . | . | 9,770 | 12,120 | **81%** |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | . | . | . | 1,140 | 1,545 | **74%** | . | . | . | 360 | 505 | **71%** |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | . | . | . | 9,575 | 12,715 | **75%** | . | . | . | 9,690 | 12,105 | **80%** |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 1,360 | 1,695 | 80% | 5,675 | 8,050 | **70%** | 975 | 1,240 | 79% | 6,785 | 8,750 | **78%** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | . | . | . | 4,080 | 5,790 | **70%** | . | . | . | 4,620 | 6,070 | **76%** |
| Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | . | . | . | 10,100 | 13,690 | **74%** | . | . | . | 9,440 | 11,775 | **80%** |
| Gwallt a Harddwch | . | . | . | 2,060 | 2,910 | **71%** | . | . | . | 2,140 | 2,690 | **80%** |
| Lletygarwch ac Arlwyo | . | . | . | 3,425 | 5,060 | **68%** | . | . | . | 2,485 | 3,420 | **73%** |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | . | . | . | 2,175 | 2,725 | **80%** | . | . | . | 1,910 | 2,285 | **84%** |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | . | . | . | 55 | 90 | **64%** | . | . | . | 10 | 10 | **100%** |
| Sector/Maes Pwnc heb ei nodi | . | . | . | 15,495 | 25,890 | **60%** | . | . | . | 20,325 | 28,125 | **72%** |
| **Cyfanswm** | 1,360 | 1,695 | 80% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 975 | 1,240 | 79% | 83,540 | 107,940 | **77%** |
| **Yn ôl Rhaglen** | | | | | | | | | | | | |
| Prentisiaethau Modern Sylfaen | 905 | 1100 | 83% | 34,830 | 47,215 | **74%** | 750 | 950 | 79% | 33,200 | 41,755 | **80%** |
| Prentisiaethau Modern | 450 | 590 | 77% | 20,130 | 27,750 | **73%** | 225 | 280 | 80% | 21,110 | 26,460 | **80%** |
| Diploma Medrau Modern | . . | | . | 1,525 | 2,655 | **57%** | . | . | . | 1,235 | 1,675 | **74%** |
| Adeiladu Sgiliau | 0 | 10 | 0% | 21,480 | 34,160 | **63%** | . | . | . | 27,230 | 36,780 | **74%** |
| Rhaglen DYYG Arall | . | . | . | 155 | 545 | **28%** | 0 | 10 | 0% | 770 | 1,270 | **61%** |
| **Cyfanswm** | 1,360 | 1695 | 80% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 975 | 1,240 | 79% | 83,540 | 107,940 | **77%** |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)

. dynodi nad yw'n berthnasol.
Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mark Evans AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Marshall Clayton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rob Davies | Enwebai’r Darparwr |